

Rhannu Data Personol gan Gyngor Caerdydd, o ran Plant sy'n derbyn Gofal a Chymorth, ar gyfer Rhieni / Gofalwyr

Pam ein bod yn rhoi'r hysbysiad hwn i chi

Mae angen i Gyngor Caerdydd gael eich data personol er mwyn gallu cyflawni rhai tasgau penodol yn ymwneud â Phlant sy'n derbyn Gofal a Chymorth, yn unol â'r hyn sydd er budd y cyhoedd.

Mae'r hysbysiad hwn wedi ei ddylunio i roi gwybodaeth i chi am y data sydd gennym amdanoch a'r plentyn/plant dan eich gofal, sut y byddwn yn ei ddefnyddio, eich hawliau ynghlwm ag ef a'r mesurau diogelwch sydd ar waith i'w ddiogelu.

Pa ddata personol sydd gennym a sut rydyn ni'n ei gael

Yn ystod ein hymwneud â phlentyn dan eich gofal, rydym yn casglu amrywiol ddarnau gwybodaeth;

- Eu henw, eu cyfeiriad a'u dyddiad geni
- eu hanghenion a'u hamgylchiadau
- barn gweithwyr proffesiynol
- staff sy'n eu cefnogi
- pryd a lle wnaeth y staff gwrdd â nhw
- am beth oedd y cyfarfodydd a'r hyn ddigwyddodd ynddyn nhw
- gwybodaeth y mae eu gofalwr / pobl eraill maen nhw'n eu hadnabod wedi ei rhoi i ni
- gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn, e.e. Iechyd, Addysg, gweithwyr gofal ac asiantaethau gwirfoddol

Sut byddwn yn defnyddio'ch data personol

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau:

- bod gan y staff sy'n rhoi cymorth i'r plentyn wybodaeth gywir a chyfredol er mwyn eu helpu i benderfynu ar y cymorth gorau posibl iddyn nhw
- bod cofnodion cywir ar gael pan fyddwn yn adolygu eu gofal a'u cymorth
- bod unrhyw bryderon yn cael eu hystyried yn briodol os bydd cwyn gennych
- dim ond unwaith y mae'n rhaid iddynt roi'r wybodaeth

Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch data personol

Dan ddeddfau diogelu data, dim ond am y cyfnod y bydd ei angen i gwblhau'r diben(ion) y casglwyd ef yn y lle cyntaf y byddwn yn cadw'ch data personol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gofrestr gadw'r Cyngor;

<http://www.archwilio.cymru/cy/amdanom-ni/menter-twyll-genedlaethol>

Rhannu Gwybodaeth rhwng gwasanaethau

Weithiau, mae'n rhaid i ni rannu gwybodaeth bersonol heb ofyn i'r unigolyn. Gall hyn ddigwydd;

- ar gyfer gweithdrefnau cyfreithiol pan wneir Gorchymyn Llys
- os oes risg o niwed neu gamdriniaeth i'r plentyn neu bobl eraill
- pan na fydd y plentyn yn gallu rhoi caniatâd ar unrhyw adeg, er enghraifft oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol

- i helpu'r awdurdodau gydag atal / canfod troseddau neu erlyn troseddwyr, neu asesu / talu trethi

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn casglu gwybodaeth am blant bob blwyddyn gan Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer cofnodion Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan LC fynediad at ddata plant sy'n derbyn gwasanaethau gan awdurdodau lleol. Mae gennych chi, fel un ai rhiant neu ofalwr plentyn o'r fath, neu fel plentyn eich hun dros 12 oed, yr hawl i gael gwybod sut mae LIC yn prosesu ac yn defnyddio'r data hwn. Cewch ragor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon isod ac yn <https://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-social-services-data-collections/?skip=1&lang=cy> neu drwy gysylltu â'r Cyngor.

Mae'r wybodaeth a anfonwyd yn amrywio bob blwyddyn, ond bydd yn cynnwys nodweddion personol a manylion am y gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarparwyd. Os oes gan blentyn Rif Disgybl Unigryw (RhDU) bydd y rhif wedi'i gynnwys yng Nghyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. Mae'r RhDU yn gadael i Lywodraeth Cymru baru gofal plentyn â gwybodaeth addysgol y plentyn hwnnw. Nid yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio enw'r plentyn yn yr ymarferiad hwn, nac ychwaith yn cymryd unrhyw gamau yn ymwneud â phlant unigol na'n eu hamlygu nhw mewn adroddiadau.

Gallwch ofyn i Lywodraeth Cymru am restr o eitemau data sydd yng Nghyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal Cymru.

Rhannu eich gwybodaeth â Llywodraeth Cymru

Bydd peth o'ch gwybodaeth chi'n cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn eu helpu nhw i gynnal gwaith ymchwil i wella'r gofal a chymorth a roddir i chi a phobl eraill yng Nghymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n gyfreithiol a bydd ond yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru at ddibenion ymchwil i gefnogi busnes swyddogol.

Pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru?

<p>Ychydig o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ dyddiad geni ✓ rhyw ✓ grŵp ethnig ✓ statws anabled ✓ gwybodaeth iechyd arall ✓ manylion sylfaenol am y gofal a chymorth a roddir i chi ✓ gwybodaeth gan eich ysgol am eich addysg 	<ul style="list-style-type: none"> ✗ Ni fydd eich enw'n cael ei rannu ✗ Ni fydd enwau eich teulu a/neu gofalwyr yn cael eu rhannu ✗ Ni fydd eich cyfeiriad yn cael ei rannu
--	--

Sut fydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio fy ngwybodaeth?

<ul style="list-style-type: none"> ✓ Helpu i gynllunio gwasanaethau i bobl yng Nghymru ✓ Mesur sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu fel bod modd eu gwella ✓ Helpu i gynnal gwaith ymchwil i lesiant pobl – 	<ul style="list-style-type: none"> ✗ Ni fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd sydd yn ymwneud â chi'n bersonol ✗ Ni fyddwch yn cael eich amlygu mewn unrhyw adroddiad ✗ Ni fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu na'i chyfuno mewn ffordd a all arwain
--	--

gall hyn olygu cyfuno'r wybodaeth â gwybodaeth arall e.e. data iechyd neu addysg

at ei gwneud hi'n hawdd i'ch adnabod chi

Beth yw fy hawliau o ran defnyddio fy nata?

☞ hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
☞ hawl i weld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch chi
☞ hawl i gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw
☞ hawl i (mewn rhai amgylchiadau) wrthwynebu neu atal eich gwybodaeth rhag cael ei phrosesu

☞ hawl (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
☞ hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n reoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

Bydd y wybodaeth a rennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei hanfon a'i storio'n ddiogel. Bydd ond yn cael ei rhannu gan bobl dan reolaethau gofalus, i sicrhau ei bod ond yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd a restrir yma.

A yw casglu'r data'n gyfreithiol?

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu'r data yma gan ddefnyddio grymoedd a nodir mewn deddfwriaeth ac i sicrhau ein bod ni'n gallu cyflawni swyddogaethau cyhoeddus a gofynion statudol.

Am ba hyd fyddwch chi'n cadw'r data?

Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r data hyd at ben-blwydd y plentyn/oedolyn yn 25. Ar ôl y pwynt hwn bydd y data'n ddi-enw ac yn dal i gael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil ac ystadegol yn unig.

Gwybodaeth bellach

I gael disgrifiad llawn o'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru; eich hawliau a'r wybodaeth gyfreithiol berthnasol; ac ar gyfer cwynion, defnyddiwch y ddolen isod, neu ysgrifennwch atom ni i'r cyfeiriad isod.

<https://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-socialservices-data-collections/?skip=1&lang=cy>

Tîm Casglu Data
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Llawr 4 De, CP2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: stats.pss@gov.wales

Cadw'ch gwybodaeth yn gyfrinachol

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gadw'r wybodaeth amdanoch chi a'r plentyn/plant dan eich gofal yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Os bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi neu eich plant/plentyn, byddwn:

- yn dweud wrthy ch pam bod ei hangen arnom
- yn gofyn dim ond am yr hyn sydd ei angen arnom, heb gasglu gormod o wybodaeth na gwybodaeth amherthnasol
- yn ei diogelu ac yn sicrhau na fydd unrhyw un heb hawl i wneud hynny yn cael mynediad iddi
- yn eich hysbysu os byddwn yn ei rhannu gyda sefydliadau eraill er mwyn rhoi gwell gwasanaethau i chi, ac a oes hawl gwrthod gennych
- yn sicrhau na fyddwn yn ei chadw'n hirach nag sydd rhaid

Eich Hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych lawer o hawliau o ran eich data personol. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Hawl mynediad
- Hawl cywiro
- Hawl dileu
- Hawl tynnu cydsyniad yn ei ôl
- Hawl i gludadwyedd data
- Hawl i gyfyngu prosesu
- Hawl i wrthwynebu
- Hawliau yn ymwneud â phenderfynu a phroffilio wedi eu hawtomeiddio

Tynnu Cydsyniad yn ei ôl

Os ydym yn dibynnu ar gydsyniad gennych i brosesu'ch data, gallwch wneud cais i dynnu'ch cydsyniad yn ôl neu wrthwynebu rhai elfennau o'r gwaith prosesu. Nid yw'r cyngor yn dibynnu ar gydsyniad yn y rhan fwyaf o achosion am fod rhwymedigaeth gyfreithiol arno i wneud rhai tasgau penodol. Er enghraifft, mae prosesu ceisiadau cynllunio, casglu taliadau'r dreth gyngor a thasgau gwaith cymdeithasol wedi eu seilio ar anghenion cyfreithiol, nid ar gydsyniad.

Cysylltu â ni / Swyddog Diogelu Data

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data am fwy o wybodaeth.

Swyddog Diogelu Data
Tîm Llywodraethiant Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

DiogeluData@caerdydd.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd Llawn y Cyngor sydd i'w gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>